


# Nodweddion Diddorol

**Gwesty'r Llew Coch**

Ⓐ Bu tafarn ar y safle hwn ers y 12fed ganrif. Ymysg yr ymwelwyr cafwyd ffermwyr o Gymru, porthmyn, boneddigion, actorion, cerddorion a gwneuthurwyr ffilmiau.

**Gwylliaid Cochion**

Ⓑ Yn yr 16eg ganrif, roedd ardal Mawddwy'n gartref i giwed o ladron pen ffordd ac ysbeilwyr o'r enw Gwylliaid Cochion Mawddwy. Gwehilion cymdeithas oeddent, yn ôl y sôn, a ddaeth i ardal Dinas Mawddwy wedi iddynt gael eu halltudio o'u bro eu hunain. Pan gafodd dau frawd eu dal, dyma nhw'n ymbil ar y Barwn Owain am faddeuant, a chynddeiriogodd y Gwylliaid pan wrthododd eu cais. Roeddent yn benderfynol o ddial arno, ac un noson, wrth i'r Barwn deithio adref o Sir Drefaldwyn, ymosododd y Gwylliaid arno ar y ffordd. Daethpwyd o hyd i'w gorff â deg ar hugain o saethau ynddo.


**Pont Minllyn**

Ⓒ Pont gul â dau fwa sy'n croesi Afon Dyfi yn Ninas Mawddwy. Adeiladwyd y bont gan y Dr John Davies yn gynnar yn yr 17eg ganrif.

**Tŷ'r Orsaf**

Ⓓ Bu gorsaf Dinas Mawddwy (sydd bellach yn dŷ preifat) yn gwasanaethu Chwarel Llechi Minllyn, gyda thramffordd fer yn mynd o'r orsaf i'r felin brosesu ar waelod inclein serth i lawr o'r chwarel ar y bryn uwchben.

Er na ddaeth trenau'r brif linell i'r man hwn erioed, roedd ganddo ei linell breifat ei hun, Rheilffordd Mawddwy, o 1867 ymlaen. Yn wahanol i linellau llechi pwrpasol eraill, roedd y llinell 6¾ milltir hon yn rheilffordd lled safonol maint llawn.








**Y diwydiant Gwlân**

Ⓔ Melin Meirion, lle bu nwyddau gwlân Cymreig traddodiadol yn cael eu gwehyddu am nifer o flynyddoedd mewn melinau a sefydlwyd gan fenter gydweithredol o ffermwyr sef 'Y Gymdeithas Wlân', yn siediau segur y chwarel.

Lluniau/Pictures Susan Roberts



Llun/Picture Jean Napier

# Points of Interest

**Red Lion Pub**

Ⓐ There was an inn here from the 12th century, and visitors have included Welsh farmers, drovers, noblemen, actors, musicians and film makers.

**Gwylliaid Cochion**

Ⓑ In the 16th century, the Mawddwy area was home to a band of highway robbers and bandits named the 'Gwylliaid Cochion Mawddwy'. The Gwylliaid were supposedly the dregs of society, who came to the Dinas Mawddwy area having been exiled from their own areas. When caught, two brothers pleaded to be pardoned by the Baron Owain, and his rejection of the plea enraged the Gwylliaid. They were intent on revenge and one night, while the Baron travelled home from Montgomeryshire, the Gwylliaid ambushed him on the road. His body was found with thirty arrows in it.

**Pont Minllyn**

Ⓒ A narrow two arched bridge that crosses the Dyfi at Dinas Mawddwy, built by Dr John Davies early in the 17th century.

**Station House**

Ⓓ Dinas Mawddwy station (now a private house) served the Minllyn Slate Quarry with a short tramway running from the station to the processing mill at the base of a steep incline down from the quarry on the hillside above.

Although main line trains never passed this way, from 1867 it did have its own private Mawddwy Railway. This 6¾ mile line, unlike other slate dedicated lines, was a full scale standard gauge railway.

**Wool Industry**

Ⓔ Meirion mill where for a number of years traditional Welsh woollens were woven in mills set up by a farmers co-operative 'Y Gymdeithas Wlân' in the abandoned sheds of the quarry.



# Taith Gerdded Dinas Mawddwy

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Dinas Mawddwy Walk








**Dechrau:** Maes parcio pentref Dinas Mawddwy
**Cyfeirnod Grid:** SH 858 150
**Pellter:** 3.4 km - 2.1 milltir
**Gradd:** Hawdd
**Tirwedd:** Taith gerdded ar hyd afon ar lwybrau glaswelltog a thraciau cadarn
**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer - OL 23
**Lluniaeth:** Y Llew Coch, Buckley Arms a Melin Meirion yn Ninas Mawddwy. Brigands Inn a Chaffi Carys, Mallwyd

1. O fynedfa'r maes parcio, croeswch y ffordd i fynd heibio Gwesty'r Llew Coch Ⓐ ar y chwith. Wrth y blwch ffôn, trowch i'r chwith i ddilyn llwybr i lawr at yr afon a chroeswch y bont droed ar y dde (gan sicrhau nad oes mwy na phedwar person ar y bont droed ar yr un pryd!).
2. Trowch i'r chwith ar hyd llwybr glaswelltog Ⓑ, ac yna cadwch i'r dde i fyny heibio ffermdy Tan-y-bwlch. Ar y ffordd tarmac, trowch i'r dde ac ymlaen trwy barc carafanau Celyn Brithion at y brif ffordd. Croeswch y ffordd yn ofalus i weld yr hen bont pynfarch Ⓒ, hen dŷ'r orsaf Ⓓ ac i ymweld â Melin Meirion Ⓔ.
3. Ar y ffordd yn ôl, cerddwch i'r chwith ar y pafin heibio gwesty'r Buckley Arms, trowch i'r dde i ddilyn isffordd at fynedfa'r ysgol gynradd. Trowch i'r chwith trwy gât mochyn a dilyn llwybr â chyfeirbwyntiau i fyny'r llethr a thrwy giât arall, ac i'r ffordd.
4. Trowch i'r dde ar hyd ar y pafin ac yn fuan trowch i'r dde i lawr i Ddinas Mawddwy ac yn ôl i'r dechrau.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014

# Taith Dinas Mawddwy Walk




Llun/Picture Jean Napier

**Start:** Dinas Mawddwy village car park
**Grid Reference:** SH 858 150
**Distance:** 3.4 km - 2.1 miles
**Grade:** Easy
**Terrain:** Riverside walk along grassy paths and firm tracks
**Maps:** OS Explorer - OL 23
**Refreshments:** Y Llew Coch, Buckley Arms and Meirion Mill in Dinas Mawddwy. Brigands Inn and Caffi Carys, Mallwyd








1. From the car park entrance cross the road to pass the Red Lion Hotel Ⓐ on your *L*. At the phone box, turn *L* to follow a path down to the river and cross the *FB* on your *R* (Ensuring that no more than 4 persons cross the bridge at one time!).
2. Turn *L* along a grassy path Ⓑ, then keep *R* up past Tan-y-bwlch farm house. At the tarmac road, turn *R* and on through Celyn Brithion caravan park to the main road. At this point cross the road to view the old packhorse bridge Ⓒ, old station house Ⓓ and visit Meirion Mill Ⓔ.
3. On returning, walk *L* along the pavement past the Buckley Arms Hotel, turn *R* to follow minor road to the Primary School entrance. Turn *L* through a kissing *G* and follow a way marked path up the bank and through another *G*, and on to the pavement.
4. Turn *R* and shortly turn *R* down into Dinas Mawddwy and back to the start.

© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014